OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 2750

# Rheoliadau Suddoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) 2013

**Dangos bod mwydion a chelloedd ychwanegol wedi eu hychwanegu**

**11.**—(1) Rhaid i berson beidio â masnachu mewn sudd ffrwythau yr ychwanegwyd mwydion neu gelloedd ychwanegol ato oni bai bod ei label yn dangos ychwanegiad o'r fath.

(2) Ym mharagraff (1), mae i "sudd ffrwythau" yr un ystyr ag sydd i "*fruit juice*" yn ail is-baragraff pwynt 5 o Erthygl 3 o Gyfarwyddeb 2001/112/EC.